# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Henblas

Dyddiad yr arolygiad: 15/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o Ysgol Henblas sy'n cyfrannu'n effeithiol at feithrin amgylchedd cynnes a chefnogol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac effeithiol, ac mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae profiadau sy'n seiliedig ar dreftadaeth, hanes a diwylliant lleol, ynghyd â chysylltiadau cryf â'r gymuned, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn meithrin balchder disgyblion yn eu cynefin. Mae'r profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i lawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac o aelwydydd incwm isel, i ddatblygu eu medrau a chyfrannu'n weithredol at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i leisio eu barn a dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion er mwyn cefnogi llawer i wneud cynnydd da dros amser. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd a digidol yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau, ac yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg naturiol a hyderus. Er hyn, nid yw medrau darllen lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu'n ddigon cadarn yn y Gymraeg na'r Saesneg.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn defnyddio dulliau holi medrus ac yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n cefnogi cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo cydweithio buddiol a chyfnodau myfyrio gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dysgu ymhellach. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio dysgu disgyblion yn ddigon pwrpasol bob tro, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n bwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar ddatblygiad a chynnydd ym medrau disgyblion. Yn ogystal â chyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i staff, maent yn elwa ar gydweithio ag ysgolion partner i rannu eu harbenigedd ac arferion effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gryfhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu gweithgareddau dysgu sy’n cefnogi a herio dysgu disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Gwella medrau darllen disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026